Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 02.02.2021

## Diweddariad: Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Rhagfyr 2020 – Ionawr 2021 yn cau 5 Chwefror 2021

Mi fydd y Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Rhagfyr 2020 – Ionawr 2021, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd, yn cau am 12:00pm, Dydd Gwener 5 Chwefror 2021. Mae cymorth ar gael i fusnesau sydd wedi gorfod cau, neu wedi dioddef gostyngiad o 40% neu fwy yn eu trosiant, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau. Mae busnesau sydd eto i ymgeisio am/dderbyn cymorth wedi ceisio am gefnogaeth ar gyfer y cyfnod Rhagfyr 2020 ac Ionawr 2021, yn gallu gwneud hynny drwy gwblhau ffurflen gais syml. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i:

https://bit.ly/CronCyfRhag2020

## Estyniad y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau 25 Ionawr – Mawrth 2021

Cyhoeddwyd cymorth pellach ar gyfer y sectorau manwerthu dianghenraid, lletygarwch, twristiaeth a hamdden a busnesau eraill sy'n cael eu gorfodi neu y mae'n ofynnol iddynt gau neu wedi eu heffeithio'n sylweddol gan y cyfyngiadau parhaus:

- Bydd busnesau sydd yn atebol am Drethi Annomestig sydd eisoes wedi derbyn arian ar gyfer Rhagfyr 2020 ac Ionawr 2021 yn derbyn y gefnogaeth ychwanegol yn ystod Chwefror 2021 heb fod angen cyflwyno cais newydd (bydd busnesau cymwys sydd ddim wedi derbyn cefnogaeth yn flaenorol yn gallu ymgeisio drwy gwblhau ffurflen gais syml).
- Bydd busnesau bach sydd ddim yn talu Treth Annomestig, ac sydd wedi colli rhan sylweddol o'u hincwm, hefyd yn gallu derbyn mwy o gefnogaeth drwy gwblhau cais syml. Bydd ffurflen gais ar gyfer yr arian ychwanegol ar gael yn ystod yr wythnos yn cychwyn 8 Chwefror 2021.

Bydd mwy o wybodaeth am y cymorth pellach yn cael ei rannu â chwi cyn gynted ac y bydd ar gael.

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/estyniad-y-cronfa-i-fusnesau-dan-gyfyngiadau

# Gofyn i bobl lywio dyfodol y gweithle yng Nghymru

Yn fuan bydd pobl yng Nghymru yn gallu awgrymu lleoedd yn eu cymunedau lle yr hoffent weithio, fel rhan o uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i gael tua 30% o'r gweithlu'n gweithio gartref neu'n gweithio o bell. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/gofyn-i-bobl-lywio-dyfodol-y-gweithle-yng-nghymru

# Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol yn parhau ar gyfer 2021. Fel rhan o'r ymgyrch cyn Nadolig, bu cyfle i fusnesau gael eu rhestru ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Yr ydym yn parhau i fod yn awyddus i glywed gan fusnesau manwerthu sydd yn dymuno cael eu cynnwys ar y wefan.

Cysylltwch â: twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn hyrwyddo eich cynnyrch a chynigion ar Facebook, gallwch rannu eich post drwy tagio ni ar:

https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal

## Digwyddiadau/ Gweminarau mis Chwefror

Mae nifer o ddigwyddiadau rhithwir ar gael yn gyson gan sawl sefydliad yng Nghymru er mwyn cefnogi busnesau yn y cyfnod yma:

- Cyflymu Cymru i Fusnesau (CCIF)
  Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn parhau i gynnal nifer o weminarau a chyrsiau ar-lein am ddim sydd o gymorth i fusnesau yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn yn cynnwys gweminar dwy ran am ddim sydd wedi'i theilwra ar gyfer y sector twristiaeth a lletygarwch. Byddant yn dangos i chi sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol i gadw mewn cyswllt gyda'ch cwsmeriaid, yn ogystal ag offer ar-lein megis systemau archebu i'ch helpu i baratoi eich busnes ar gyfer pan fyddwch yn gallu ailagor yn ddiogel
  https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

- Gweminarau Hwb Menter @ M-SParc
  Mae Hwb Menter @ M-SParc yn cynnig gweminarau cefnogaeth busnes gan gynnwys digwyddiadau Prisio'ch Cynnyrch, Prisio'ch Gwasanaeth, Dod o hyd i gyllid a mwy. Am ragor o wybodaeth ac i archebu eich lle ewch i:
  https://bit.ly/EventbriteMSparc

- Rhwydweithio Rhithwir FSB Gogledd Cymru
  Ymunwch ag FSB ar-lein i rwydweithio a chysylltu efo busnesau eraill yng Ngogledd Cymru.
  https://www.fsb.org.uk/
  Mae mwy o wybodaeth ar gyfrif Twitter FSB Cymru:
  https://twitter.com/FSB_Wales

- RCS Cefnogaeth ac Hyfforddiant
Mae RCS, yn gweithredu ledled Gogledd Cymru ac yn darparu ystod o wasanaethau integredig wedi eu hanelu at gefnogi pobl i ffynnu mewn gwaith. Mae eu gweminar rhad ac am ddim ar 3 Chwefror 2021, Eich Gweithle ac Amser Trafod, yn edrych ar sut i gyflwyno iechyd meddwl i'n trafodaethau a'n diwylliant gwaith, gan roi canllaw clir a syml ar sut y gallwn gefnogi ein cydweithwyr drwy'r dyddiau anodd hyn.
https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

- Adferiad Rhanbarthol 2021 – Uwchgynhadledd Busnes 24 Chwefror 2021 (Ar-lein)
Uwchgynhadledd Busnes a fydd yn rhoi sylw i'r buddsoddiadau, y cynlluniau a'r cymorth diweddaraf ar gyfer adferiad economaidd ardal Gogledd Cymru, Mersi a'r Ddyfrdwy. Cyflwyniadau gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington, a Growth Track 360. Bydd y digwyddiad ar-lein di-dâl hwn, rhwng 10:00am a 3:00pm ar 24 Chwefror 2021, yn cynnwys sesiwn holi ac ateb a chyfraniad dilynol gan fusnesau. I gofrestru, ewch i:
http://bit.ly/3nZFAGn

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru